**Cynnydd ar sail Cynllun Cyflawni 2017 Rhaglen Dileu TB Cymru**

| Gweithredu | Cynnydd hyd yma | Parhau â'r drafodaeth, camau nesaf, gweithredoedd yn codi |
|---|---|---|
| 1. **Profion ar ôl Symud yn yr Ardal TB Isel** O 1 Hydref 2017, rhaid rhoi Prawf ar ôl Symud i wartheg sy'n symud i'r Ardal TB Isel, gan gynnwys gwartheg sy'n cael eu symud iddi o'r Ardal Risg Uchel a'r Ardal Ymylol yn Lloegr. | **Wedi'i gyflawni, yn sgil rhanbartholi'r cynllun dileu TB.** Diolch i gynnal Profion ar ôl Symud yn yr Ardal TB Isel, cafwyd dau ddaliad yn 2021 wedi'u heintio na fyddent efallai wedi cael eu darganfod tan brawf nesa'r fuches. Mae'r naill bellach yn ddaliad Heb TB Swyddogol ac mae'r llall ar drywydd ennill y statws hwnnw.<br><br>Mae Adroddiad gwyliadwriaeth blynyddol TB 2019 yn dangos bod canran y symudiadau o fewn yr Ardal TB Isel wedi cynyddu o 72.7% yn 2017 i 81.6% yn 2018 sy'n awgrymu bod ffermwyr yn llai parod i fentro wrth brynu, hynny er mwyn osgoi Profion ar ôl Symud.<br><br>Yn 2020, roedd 76.4% o'r holl symudiadau o fewn yr Ardal TB Isel. Ond roedd 19.4% o'r symudiadau i'r Ardal TB Isel o Ardal TB Canolradd ac Uchel Cymru neu o Ardaloedd Ymylol neu Risg Uchel Lloegr, sy'n awgrymu bod ffermwyr yn dal i brynu gwartheg risg uchel. | Gwnaethon ni ymgynghori ar gynigion i gynnal Profion ar ôl Symud yn ardaloedd eraill Cymru. Bydd yr ymatebion yn ein helpu wrth lunio'r Cynllun Cyflawni newydd. |
| 2. **Profion cyn Symud yn yr Ardal TB Isel** O 1 Hydref 2017 ni fydd angen cynnal Profion cyn Symud ar wartheg sy'n cael eu symud o'r Ardal | **Wedi'i gyflawni, yn sgil rhanbartholi'r cynllun dileu TB.** | Mae profiad yn dangos, heb Brofion cyn Symud, ei bod yn anodd rhwystro achosion sydd wedi'u cario i'r Ardal TB Isel rhag lledaenu'n lleol. |

| | | |
|---|---|---|
| TB Isel neu o fewn iddi. Bydd dal gofyn cynnal Profion cyn Symud ar wartheg sy'n cael eu symud o fewn, rhwng ac o'r Ardaloedd TB Canolradd ac Uchel. | | Yn ein hymgynghoriad diweddar, roedd cynigion i ailgyflwyno Profion cyn Symud yn yr Ardal TB Isel. Bydd yr ymatebion yn ein helpu wrth lunio'r Cynllun Cyflawni newydd. |
| **3. Prawf clirio mewn buchesi ag achosion cronig o TB** O 1 Hydref 2017, mewn buchesi lle ceir achosion parhaus o TB, ni fydd modd defnyddio'r prawf clirio fel Prawf cyn Symud. | **Wedi'i gyflawni, ac yn parhau fel rhan o'r Cynllun Gweithredu.** | Yn yr ymgynghoriad diweddar, roedd cynigion i gynnal y mesur hwn yn rhannau eraill Cymru, nid dim ond mewn buchesi ag achosion parhaus. Bydd yr ymatebion yn ein helpu wrth lunio'r Cynllun Cyflawni newydd. |
| **4. Gwartheg ag Adwaith Amhendant mewn buchesi ag achosion cronig** O 1 Hydref 2017, rhaid difa pob Adwaith Amhendant mewn buches ag achosion parhaus | **Wedi'i gyflawni, ac yn parhau fel rhan o'r Cynllun Gweithredu.** Cafodd y polisi ei newid i ddifa pob anifail sydd wedi cael Adwaith Amhendant i brawf â dehongliad safonol; ac i gynnal prawf gama ac IDEXX ar bob anifail sy'n cael Adwaith Amhendant i ddehongliad llym. | Mae cynlluniau gweithredu'n cael eu monitro a'u hadolygu drwy'r amser. |
| **5. Iawndal wrth symud gwartheg o fewn buchesi ag achosion cronig** Mewn buchesi ag achosion cronig o TB, os yw anifail yn cael ei symud o dan drwydded o fewn CPH, caiff yr iawndal ei leihau i 50% os bydd wedyn yn cael ei ddifa oherwydd TB. | **Wedi'i gyflawni, ac yn parhau fel rhan o'r Cynllun Gweithredu.** Cafodd y polisi ei newid er mwyn lleihau'r iawndal ar gyfer gwartheg sy'n cael eu symud fwy na 3km o'r prif safle o fewn daliad CPH.<br><br>Mae cyfanswm o 363 o drwyddedau symud o fewn buchesi wedi'u rhoi. | Mae cynlluniau gweithredu'n cael eu monitro a'u hadolygu drwy'r amser. |

| | | |
|---|---|---|
| | Cafodd yr iawndal ar gyfer 7 daliad ei leihau, ar ôl symud 60 o anifeiliaid y bu'n rhaid eu difa oherwydd TB. | |
| **6. Iawndal Uchaf**<br>O 1 Hydref 2017, cafodd y cap o £15,000 ar yr iawndal TB a delir fesul anifail ei leihau i £5,000. | **Wedi'i gyflawni, ac yn parhau.**<br>Ym mlwyddyn ariannol 2021/22, cafodd yr iawndal ar gyfer 33 o anifeiliaid ei leihau am fod eu gwerth ar y farchnad yn uwch na therfyn yr iawndal. Arweiniodd hyn at arbed rhyw £36,300, ond efallai bod rhai priswyr wedi nodi mai £5,000 yw gwerth anifeiliaid ar y farchnad, hynny oherwydd y cap. Bydd hynny'n golygu bod y polisi wedi arbed llai. | Cafodd cynigion i newid y drefn Taliadau TB eu cynnwys yn yr ymgynghoriad. Bydd yr ymatebion yn ein helpu wrth lunio'r Cynllun Cyflawni newydd.<br><br>Byddwn yn ymgynghori â'r diwydiant cyn gwneud unrhyw newidiadau. |
| **7. Unedau Pesgi wedi'u heithrio (EFUs)**<br>Dileu Unedau Pesgi wedi'u heithrio erbyn 1 Ionawr 2018. | **Wedi'i gyflawni.** Caewyd Unedau Pesgi wedi'u heithrio, ym mis Ionawr 2018 | Er i EFUs gael eu cau yn 2018, rydym yn dal i gydnabod bod angen help ar geidwaid i werthu stoc dros bren pan geir achos o TB.<br><br>I'r perwyl hwn, rydyn ni'n gweithio'n glos â'r diwydiant i edrych ar dynged lloi di-elw o'r diwydiant godro. Fel ymateb i ofynion contractau prynwyr llaeth i gadw pob llo hyd at 8 wythnos oed, caniateir Unedau Pesgi Cymeradwy (AFUs) ac arwerthiant arbennig TB (marchnadoedd oren) i gefnogi'r diwydiant.<br><br>Rydym yn ystyried newidiadau perthnasol gyda Defra i symleiddio'r drefn a thrwyddedu symudiadau o |

| | | |
|---|---|---|
| | | safleoedd o dan gyfyngiadau TB i Unedau Pesgi Cymeradwy neu Unedau Ynysu TB. |
| 8. **Adolygu profion gama interfferon**<br>Adolygu'r ffordd y defnyddir y prawf gama interfferon i sicrhau ei fod yn sicrhau'r manteision mwyaf posibl. | **Wedi'i gyflawni ac yn parhau**.<br>Caiff profion gama interfferon ac IDEXX eu monitro a'u hadolygu yn rheolaidd i sicrhau eu bod yn esgor ar y manteision mwyaf posibl. Er enghraifft, mae'r prawf gama estynedig hyblyg a'r prawf IDEXX yn cael eu defnyddio fwyfwy mewn buchesi lle ceir achosion parhaus ac achosion o ailheintio. Mae'r canlyniadau'n awgrymu bod anifeiliaid sy'n cael adwaith positif i brawf twbercwlin gwartheg o fewn 30 diwrnod ar ôl prawf croen TB yn fwy tebygol o gael adwaith positif i'r profion hyn nag anifeiliaid sy'n cael prawf negatif. | Rydym yn parhau i adolygu'r defnydd o brofion gwaed ychwanegol yng Nghymru i sicrhau bod y profion iawn yn cael eu defnyddio yn y sefyllfaoedd iawn, gan sicrhau'r manteision mwyaf posibl. |
| 9. **Cynlluniau Gweithredu penodol ar gyfer buchesi ag achosion parhaus o TB**<br>Ymrwymon ni i daclo achosion o TB sy'n para mwy na 18 mis trwy Gynllun Gweithredu penodol. Nod Cynlluniau Gweithredu yw nodi ffynhonnell pob gwendid ac achos parhaus a chymryd camau i ddatrys problemau bioddiogelwch, gwneud profion yn fwy sensitif ac mewn nifer fach o achosion, | **Wedi'i gyflawni ac yn parhau.**<br>Dros y 5 mlynedd diwethaf, mae 253 o Gynlluniau Gweithredu wedi'u llunio i helpu ffermwyr, gan glirio 127 o achosion. Cewch ragor o wybodaeth am gynlluniau gweithredu ar ein dangosfwrdd TB<br><br>[Pwysig: Trapio a Phrofi – Ers 2017, mae moch daear ar 9 fferm wedi'u trapio a'u profi fel rhan o gyfres o fesurau cryfach i ddelio ag achosion parhaus o TB. Mae moch daear positif wedi'u lladd heb greulondeb a moch daear negatif wedi'u microsglodynnu, eu brechu a'u rhyddhau. Rydym yn raddol rhoi'r gorau i drapio a phrofi. Byddwn yn gorffen y gwaith ar y ffermydd dan sylw ond ni fyddwn yn dechrau unrhyw waith ar ffermydd newydd.] | Byddwn yn parhau i fonitro Cynlluniau Gweithredu ac yn arbennig, sut y gallan nhw ein helpu i gydweithio â ffermwyr trwy filfeddygon y llywodraeth a phreifat yn unol ag argymhellion y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Ymgysylltu â Ffermwyr. |

| | | |
|---|---|---|
| nodi TB mewn bywyd gwyllt a delio ag ef. | | |
| **10. Gwartheg sy'n cael Adwaith Amhendant** Er y newidiadau i'r polisi ar adweithyddion amhendant mewn buchesi ag achosion cronig, byddwn yn ystyried sut i reoli adweithyddion amhendant mewn buchesi eraill. | **Yn parhau**.<br>Rydym yn ystyried yn barhaus sut i reoli achosion, gan gynnwys gwartheg sy'n cael adwaith amhendant, yn enwedig o gofio ei bod yn bwysig bod yn hyblyg wrth brofi anifeiliaid sy'n uwch eu risg mewn buchesi ar sail profion blaenorol. | Byddwn yn dal ati i asesu'r modd y rheolir Adweithyddion Amhendant, ac yn newid y drefn os gwelir bod angen. |
| **11. Pecyn bioddiogelwch ar-lein** Un o amcanion mwy tymor hir Rhaglen Dileu TB Cymru yw hwn. I gefnogi'r pecyn yn y tymor byr, caiff 'Ap Bioddiogelwch' ei ddatblygu. | **Yn parhau**. Cafodd gwaith ei wneud gan bartneriaid yn y diwydiant i ddatblygu ap bioddiogelwch. Cafodd profion ymarferol ac arolygon o brofiad defnyddwyr eu cynnal, gan gynnwys trwy arddangosfa yn Sioe Fawr 2018.<br><br>Rhoddwyd y gorau i'r gwaith dros dro oherwydd Covid 19 ond rydym wrthi nawr yn ystyried sut i ehangu cwmpas yr ap y tu hwnt i TB gwartheg. | Rydym yn ystyried eto y potensial i ddatblygu ap bioddiogelwch. Rydym yn ystyried ehangu ei gwmpas o gofio y gwelliannau a fu mewn TG o ran cyfathrebu a defnyddio gwybodaeth. |
| **12. Trawsgydymffurfio.** Mae gwneud yn siŵr yr ymdrinnir yn effeithiol ag unrhyw achos o anghydymffurfio yn rhan bwysig o Raglen Dileu TB Cymru. Ystyrir cosbau ar iawndal a/neu roi hysbysiadau cosb penodol. | **Yn parhau.** Ar ôl gadael yr UE, mae cosbau Trawsgydymffurfio yn parhau i gael eu rhoi i geidwaid sy'n cynnal eu profion TB yn hwyr.<br><br>Cosbir y rheini sy'n derbyn Cynllun y Taliad Sylfaenol a'r rheini sy'n derbyn cymorth Rhaglen Datblygu Gwledig yr UE, fel Glastir, sy'n para tan 2023. | Mae gwaith yn cael ei wneud wrth gyflwyno'r Bil Amaeth i gyd-ddylunio Cynllun Ffermio Cynaliadwy, cyflwyno Safonau Gofynnol Cenedlaethol, llunio system cosbi briodol am dorri rheolau'r cynllun a chreu trefniadau pontio.<br><br>Ar gyfer y tymor hwy, byddwn yn datblygu opsiynau ar gyfer cosbau |

| | | |
|---|---|---|
| | | sifil, fel a gynigiwyd yn ymgynghoriad Rhagfyr 2020. |
| **13. Anifeiliaid heblaw gwartheg**<br>Caiff cynllun gwyliadwriaeth oddefol ar anifeiliaid heblaw gwartheg ei gynnal | **Wedi'i gyflawni ac yn parhau.**<br>Rydym wedi cynnal cynllun gwyliadwriaeth oddefol ar anifeiliaid heblaw gwartheg. Mae'n gweithio'n dda i adnabod a rheoli TB mewn diadellau/grwpiau. | Cynhwyswyd cynigion i gryfhau'r ddeddfwriaeth bresennol ar gyfer defaid a moch a nodi anifeiliaid heblaw gwartheg at ddiben profion TB yn yr ymgynghoriad. Bydd yr ymatebion yn ein helpu wrth lunio'r Cynllun Cyflawni newydd. |
| **14. Prynu Gwybodus**<br>Er y byddwn yn parhau i annog ffermwyr i roi manylion hanes clefyd eu buchesi yn y man gwerthu, bydd datblygu Cynllun Prynu Gwybodus yn amcan tymor hir Rhaglen Dileu TB Cymru. | **Yn parhau**<br>Rydyn ni'n dal i annog ffermwyr i asesu risg y gwartheg y maen nhw am eu prynu a dod â nhw i'w buches. Gellir gwneud hyn trwy wefan gwybodaeth TB (ibTB) a thrwy ofyn am wybodaeth am TB yn y man gwerthu.<br><br>Mae nifer o farchnadoedd wedi gwneud cais i Lywodraeth Cymru am grant i allu dangos gwybodaeth am TB. | Mae 'Prynu Gwybodus' yn dal i fod yn ffordd bwysig o reoli'r clefyd ac yn rhywbeth pendant y gall ffermwyr (a'u milfeddygon) ei wneud i ddiogelu'u gwartheg a busnesau eu fferm.<br><br>Roedd yn rhan bwysig o'r ymgynghoriad diweddar a bydd mentrau newydd yn debygol o ffurfio rhan o'n cynllun newydd ar gyfer rheoli TB. |
| **15. Llywodraethu**<br>Byddwn yn ystyried ymhellach sut i lywodraethu'r Rhaglen a sicrhau bod trefniadau priodol ac effeithiol yn eu lle. | **Wedi'i gyflawni**.<br>Cadwyd Bwrdd y Rhaglen a'r Byrddau Dileu Rhanbarthol, a'u cael i gydweithio mwy â'i gilydd. Adolygwyd eu Cylchoedd Gorchwyl. | Roedd sut mae'r Rhaglen Dileu TB yn cael ei llywodraethu yn rhan bwysig o'r ymgynghoriad ac yn ystyriaeth hanfodol wrth gynnal camau nesaf y rhaglen yng Nghymru. Ein nod yw creu strwythur llywodraethu fydd yn ein helpu i ddatblygu polisi ac yn sicrhau bod ein gwaith yn seiliedig ar y dystiolaeth wyddonol ddiweddaraf. |

| | | |
|---|---|---|
| **16. Parhau â’r Arolwg o Foch Daear Marw** | **Wedi’i gyflawni ac yn Parhau.**<br>Trwy barhau â’r arolwg, byddwn yn gallu cadw golwg ar y clefyd mewn moch daear a geir yn farw yng Nghymru. | Yn unol ag ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu i wahardd lladd moch daear i reoli TB mewn gwartheg, byddwn yn parhau i fonitro ac adolygu’r Arolwg o Foch Daear Marw gan annog y diwydiant a’r cyhoedd i riportio moch daear marw pan fydd hi’n ddiogel gwneud hynny. |